Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad rhanbarthol ar raglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru + yn ne orllewin a chanolbarth Cymru

## Dyddiad yr ymweliad monitro: Mawrth 2023

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/yr adroddiad penodol.**

## Ynglŷn â rhanbarth de orllewin a chanolbarth Cymru

Ymwelodd arolygwyr â'r prif ddarparwyr a'u partneriaid (isgontractwyr) i adolygu cyflwyno rhaglen Twf Swyddi Cymru + ym mlwyddyn gyntaf contract Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad rhanbarthol hwn yn rhoi crynodeb o'r adborth o'r ymweliad hwn.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- arsylwi cyfranogwyr mewn sesiynau
- siarad â chyfranogwyr ac adolygu eu cynlluniau dysgu unigol a'u dogfennau allweddol
- arsylwi tiwtoriaid a chyfarfod ag arweinwyr ar draws y sefydliadau
- cyfarfod â staff allweddol Cymru'n Gweithio a'r Awdurdod Lleol i adolygu'r broses atgyfeirio
- adolygu ansawdd a phriodoldeb y llety a'r adnoddau ar gyfer y rhaglen

Yn rhanbarth de-orllewin a chanolbarth Cymru, mae tri phrif ddarparwr ac 16 o isgontractwyr partner yn cydweithio i gyflwyno rhaglenni ar draws ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe. Ymwelom â chyfranogwyr y rhaglen mewn lleoliadau yn y Drenewydd, Ceredigion, Aberystwyth, Hwlffordd, Castell-nedd, Aberteifi, Abertawe, Caerfyrddin, Llanelli a Doc Penfro.

Dyma'r prif ddarparwyr a'u hisgontractwyr partner:

ITEC Training Solutions Ltd – prif ddarparwr

- Bethany Training
- Inspire Training
- Canolfan Ddysgu Llanelli
- Futureworks – Cyngor Sir Penfro

Associated Community Training (ACT) Ltd — prif ddarparwr

- Educ8
- Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT)
- Inspire Training
- Llamau
- Llanelli Rural
- Motivational Preparation College for Training (MPCT)

Consortiwm B-WBL, Coleg Sir Benfro – prif ddarparwr

- PRP Training
- HB Training
- Coleg Sir Gâr
- Achieve More Training
- ITeC Digital

- Pathways Training
- Skills & Training

Adeg ein hymweliad, roedd tua 652 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar y rhaglen. O’r rhain, roedd 65% ohonynt wedi cofrestru ar yr elfen ymgysylltu, 34% ohonynt ar yr elfen datblygu, ac 1% ohonynt ar yr elfen gyflogaeth.

## Prif ganfyddiadau

Mae gan dri phrif ddarparwr y rhanbarth hwn berthynas waith gadarnhaol ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd trwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol i rannu gwybodaeth a deallusrwydd am faterion fel recriwtio dysgwyr a sicrhau lleoliadau gwaith. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod elfen gystadleuol gan fod niferoedd is na'r disgwyl wedi'u hatgyfeirio i'r rhaglen. Mae ychydig enghreifftiau o ddyblygu darpariaeth a cholli cyfleoedd am ddatblygu dull mwy rhanbarthol a rhannu gwybodaeth yn well ymhlith isgontractwyr ar draws y rhanbarth.

Mae gan y prif ddarparwyr berthnasoedd gwaith cadarnhaol a chefnogol gydag isgontractwyr. Darparant gefnogaeth ar ffurf mannau ar-lein a rennir, cyfarfodydd rheolaidd, gweithgareddau sicrhau ansawdd a her, lle y bo'n briodol. Hefyd, caiff isgontractwyr ddarparwyr gyfleoedd i rannu eu harbenigedd a'u harfer dda ar draws y consortiwm y maent yn perthyn iddo. Er enghraifft, maent wedi rhannu arfer am ffyrdd o wneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael a sut i gynnal adolygiadau digidol effeithiol. Mae isgontractwyr partner yn gwerthfawrogi cael annibyniaeth i ddefnyddio cyllid cymorth ychwanegol mewn ffyrdd sy'n caniatáu iddynt fodloni anghenion eu carfanau penodol. Mae enghreifftiau o ddefnyddio'r cyllid hwn yn cynnwys cymhorthdal ar gyfer costau gofal plant a chludiant, darparu gweithgareddau cyfoethogi, a darparu dyfeisiau digidol i gyfranogwyr.

Mae partneriaid yn cydweithio i sicrhau bod cyfranogwyr yn cael at y profiadau dysgu mwyaf priodol. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys trosglwyddo dysgwyr ar draws y consortiwm pan fydd darparwr neu ddarpariaeth benodol yn gweddu'n well i anghenion unigolion a'u dyheadau o ran cynnydd.

Mae darparwyr yn gweithio gyda chyflogwyr i'w cefnogi yn eu rolau mentora ac mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi hyn. Mae cyflogwyr hefyd yn gwerthfawrogi cael cyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygiad rhaglenni a chodi problemau, lle y bo'n briodol, fel addasu amseroedd lleoliadau gwaith er mwyn caniatáu i gyfranogwr deithio trwy gludiant cyhoeddus. Mae gan gyflogwyr sydd â phrofiad o weithio gyda darparwyr a'u cyfranogwyr ddealltwriaeth dda o'r garfan a'r heriau a wynebant.

Mae bron bob un o'r rheolwyr canolfan, tiwtoriaid a staff cymorth yn gyfarwydd â'r rhwystrau a'r problemau y mae pobl ifanc ar y rhaglen hon yn eu hwynebu, ac maent yn wybodus iawn amdanynt. Maent yn gweithio'n galed i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ag unigolion a grwpiau trwy gynllunio a darparu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae tiwtoriaid yn gweithio gyda chyfranogwyr i gytuno ar dargedau unigol ac ystyrlon sy'n cael eu llywio gan y bobl ifanc eu hunain, y tiwtor a, lle y bo'n briodol, y cyflogwr. Gan amlaf, mae cynllunio gan diwtoriaid yn ystyried cefndir y cyfranogwyr, unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, a'u dyheadau.

Mae bron bob un o'r tiwtoriaid yn cyflwyno mewn ffordd sy'n hoelio sylw ac mae eu sesiynau'n cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau a gweithgareddau y gall cyfranogwyr uniaethu â nhw. Mae hyn yn arwain at lefelau uchel o ymgysylltu ac ymatebolrwydd gan y bobl ifanc. Mae enghreifftiau'n cynnwys sesiwn sydd â ffocws ar les sy'n cyfeirio at gadwyni bwyd cyflym a diodydd ynni a ddefnyddir yn gyffredin. Yn yr un modd, mae sesiwn hyfforddiant chwaraeon yn cynnwys trafodaeth ynghylch

trafferthion cynnwys amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol a sut y gallai hyn effeithio ar yrfa yn y dyfodol.

Mae disgwyliadau tiwtoriaid ac aseswyr yn uchel ac maent yn herio cyfranogwyr yn yr ystafell ddosbarth ac mewn lleoliadau gwaith trwy osod targedau clir a thechnegau holi effeithiol. Er enghraifft, mewn sesiwn harddwch, mae'r aseswr yn gofyn cwestiynau i'r cyfranogwyr am ddod o hyd i ddeunyddiau yn foesegol ac wedyn gwaredu'r eitemau hyn.

Mae tiwtoriaid yn annog ac yn canmol cyfranogwyr yn llawen ac mae cyfranogwyr yn cydnabod bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn berthnasol. Mae llawer o gyfranogwyr yn cydnabod buddion bod mewn grwpiau llai ac maent yn eu cymharu â phrofiadau addysg blaenorol pan oeddent mewn grwpiau mwy, a arweiniodd at ymddygiad negyddol a chynnydd gwael. Mae llawer o gyfranogwyr yn olrhain eu cyflawniadau trwy ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol digidol a nodant enghreifftiau o sut mae eu medrau technegol, academaidd a chymdeithasol wedi datblygu ers ymuno â'r rhaglen.

Mae gan leiafrif o ddysgwyr dargedau uchelgeisiol clir iawn ac mae eraill yn pennu eu ffordd ymlaen o hyd. Nid yw'r rhan fwyaf o'r rheiny sydd megis dechrau eu taith ddysgu yn siŵr pa lwybrau gwaith neu yrfa sydd o ddiddordeb iddynt. Mae llawer o gyfranogwyr yr elfennau datblygu a chyflogadwyedd mewn lleoliadau gwaith sy'n cyd-fynd â'u dyheadau. Fodd bynnag, mae ambell enghraifft pan nad dyna'r achos, yn enwedig mewn meysydd a sectorau lle y mae cyfleoedd yn brin.

Mae mannau dysgu yn hygyrch ac yn briodol ac, yn yr achosion gorau, maent yn fywiog, yn groesawgar ac yn gyfforddus. Fodd bynnag, mewn rhai o'r ardaloedd mwy gwledig, mae toriadau i gludiant wedi arwain at rwystrau pellach i bobl ifanc, gan fod amseroedd teithio i ganolfannau a gweithleoedd yn sylweddol. Mae llawer o ddarparwyr wedi newid amseroedd dechrau a gorffen i helpu gyda phroblemau cludiant. Fodd bynnag, rhoddant wybod i ddysgwyr na fydd cyflogwyr efallai mor hyblyg.

Mae bron bob un o'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth ychwanegol, fel brecwast am ddim, lwfansau cinio a nwyddau'r mislif am ddim. Hefyd, maent yn cydnabod gwerth gweithgareddau cyfoethogi a lles ychwanegol, gan gynnwys teithiau dydd, aelodaeth campfa, a mynediad at wasanaethau cymorth fel cwnsela a gweithwyr ieuenctid dynodedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr wedi cael llawer llai o atgyfeiriadau na'r disgwyl ac, o ganlyniad, maent yn croesawu'r cyfle i dderbyn atgyfeiriadau uniongyrchol a hunanatgyfeiriadau gan fod hyn wedi ategu hyfywedd y rhaglen. Gan amlaf, mae darparwyr yn cael at, ac yn datblygu, rhwydweithiau sy'n eu cynorthwyo i gyrraedd y garfan darged. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda staff Cymru'n Gweithio, timau awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau cymorth eraill. Mewn ambell achos, mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol, a chytunwyd ar fecanweithiau i sicrhau nad yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhwystr. Fodd bynnag, gan amlaf, mae rhannu data a gwybodaeth yn broblem o hyd.

Mae darparwyr yn wynebu heriau o ran codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill gan fod diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng

rhaglen Twf Swyddi Cymru + a phrentisiaethau llawn. Adeg ein hymweliad, ychydig bach iawn o sesiynau hyfforddiant a gyflwynwyd yn ddwyieithog neu ychydig bach iawn o'r rhaglen a gyflwynwyd yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd Cymraeg yn bennaf eu hiaith yn y rhanbarth. Mae sicrhau lleoliadau gwaith yn her mewn sectorau penodol hefyd:

- technoleg gwybodaeth (TG), y mae cymaint ohono'n cael ei wneud yn y cartref erbyn hyn
- lletygarwch a gofal, lle y mae heriau recriwtio sylweddol sy'n arwain at allu cyfyngedig i gefnogi hyfforddai
- trin gwallt - gan fod y busnesau hyn yn cael trafferth â chostau ynni, mae llawer ohonynt wedi mynd ati i weithredu ar sail rhentu cadair, sydd hefyd yn effeithio ar y gallu i gefnogi pobl ar leoliad gwaith

## Argymhellion

Dylai'r prif ddarparwyr, Cymru'n Gweithio a phartneriaid yn y rhanbarth:

A1 Barhau i gydweithio i gefnogi gwelliant y broses atgyfeirio i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hatgyfeirio i'r elfen a'r ddarpariaeth fwyaf priodol yn amserol

A2 Mabwysiadu ymagwedd fwy rhanbarthol at rannu gwybodaeth ac arfer dda ymhlith isgontractwyr ar draws y rhanbarth, gan ystyried materion fel y natur wledig, natur dymhorol cyfleoedd gwaith, materion penodol i sector, a'r Gymraeg

## Atodiad: Ynglŷn â Rhaglen Twf Swyddi Cymru +

Mae rhaglen ieuenctid Twf Swyddi Cymru + yn rhaglen hyfforddiant, datblygiad a chymorth cyflogaeth unigoledig i bobl ifanc 16-18 oed sy'n byw yng Nghymru ac aseswyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant amser llawn (NEET). Ei nod yw rhoi'r medrau, y cymwysterau a'r profiad i bobl ifanc gael swydd neu hyfforddiant pellach. Mae'n rhaglen hyblyg wedi'i chynllunio o gwmpas y person ifanc. Amcanion allweddol y rhaglen yw lleihau nifer y bobl ifanc NEET a chynorthwyo pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial.

Mae Twf Swyddi Cymru + yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i chynnwys yn y **Warant i Bobl Ifanc** (gwarant o gynnig cymorth i bobl ifanc dan 25 oed yng Nghymru ennill lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu fod yn hunangyflogedig).

O Ebrill 2022 i Fawrth 2026, mae Llywodraeth Cymru wedi contractio rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant i gyflwyno'r rhaglen hon ar draws pedair ardal ranbarthol, sef gogledd Cymru, y de-orllewin a'r canolbarth, canol y de, a de-ddwyrain Cymru. Mae pob rhanbarth yn cynnwys prif gontractwr ddarparwr sy'n gweithio gydag isgontractwyr partner i ddarparu rhaglen ddysgu a/neu ddatblygu integredig.

Mae cynghorwyr Cymru'n Gweithio'n atgyfeirio pobl ifanc i ddarparwyr y rhaglen a darparant asesiad cychwynnol o'r cymorth y mae ei angen, gan nodi elfennau priodol y rhaglen:

**Ymgysylltu** – Mae'r elfen hon yn helpu pobl ifanc i benderfynu pa lwybr gyrfaol yr hoffent ei ddilyn.

**Datblygu** – Mae'r elfen hon yn cynnig cymorth neu raglenni sy'n cynnig cymwysterau i helpu'r person ifanc i fynd ymlaen i astudio neu hyfforddi ymhellach, neu fynd i waith.

**Cyflogaeth** – Mae'r elfen hon yn darparu cyfleoedd gwaith â chymhorthdal i bobl ifanc.

Bydd gan bobl ifanc ar y rhaglen, sy'n cael eu galw'n gyfranogwyr, gynllun dysgu unigol (CDU). Mae'r cynllun hwn yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno gan ddarparwyr a fydd yn cynorthwyo'r bobl ifanc i ennill y medrau, y cymwysterau a'r profiad i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, i waith (gan gynnwys hunangyflogaeth) neu i brentisiaeth).

Mae disgwyl i'r prif ddarparwyr lunio a chyflwyno cymorth hyblyg a chreadigol unigoledig sy'n cynnwys amrywiaeth eang o weithgarwch – y tu hwnt i hyfforddiant a datblygu medrau. Gall hyn gynnwys defnyddio lleoliadau gwaith gyda chyflogwyr, treialon gwaith, prosiectau cymunedol, gwaith gwirfoddol, cyfleoedd dysgu mewn canolfannau a chyflogaeth â chymhorthdal cyflog, ymhlith eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am fanyleb y rhaglen i’w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:

Manyleb rhaglen Twf Swyddi Cymru + | LLYW.CYMRU